hilyn Cofia y Parch. Thomas Thomas, Y.H., Pantdefaid.

Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD CARIAD.

# Yr Ymofynydd

Cyf. 8. Rhif 3.] MAWRTH, 1908. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Ar Edyn Ffydd. Alva.
Er Cof am T. T. Sarnicol.
Bywgraffiad.
J. Hathren Davies, Cefn.
Congl yr Awen.
"Bywyd Iesu" gan Renan.
Duw a'i Fyd.
Dadorchuddio Cerflun y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar.
Ymson y Myfyriwr.
Gohebiaethau. Dydd Barn.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

# YR YMOFYNYDD.

*Golygwyr*—

T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul, a SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2/6 y flwyddyn. Danfonir 6 cop ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

**Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.**


## TALIADAU.

J.M., Blaengwynfi; C.E., Merthyr; E.J., Glynbynod; W.J., Cefncoed; Dr. J., Llanybyther; J.J., Aberaman Farm; E.D., Aberdar; W.P.W., Bangor.

**YN EISIAU.**—"YR YMOFYNYDD" am Tachwedd a Rhagfyr 1863; Ionawr 1893. Hefyd "YR ATHRAW" (Gwilym Marles) am Hydref 1866. Danfoner i Swyddfa'r YMOFYNYDD.


*YN AWR YN BAROD. PRIS 2s. 6c.*

# Yr Hen a'r Newydd mewn Duwinyddiaeth,

GAN Y

Parch. D. ADAMS. B.A., Liverpool.

Ar werth gan J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynydd", Llandyssul.



# Y Parch. THOMAS THOMAS, Y.H., Pantdefaid.

*Ganwyd - - - Ionawr 6, 1824.*
*Bu farw - - - Chwefror 15, 1908.*

Digitized by the Internet Archive
in 2025

https://archive.org/details/yr-ymofynnydd_1908-03_8_3

# YR YMOFYNYDD.

***Cylchgrawn Misol y . . . .***
***Gymdeithas Undodaidd Gymreig.***

*"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.*

CYFRES NEWYDD.] MAWRTH, 1908. [CYF. VIII. RHIF 3.


## *AR EDYN FFYDD.*

I.

Dad trugarog! dygaist eto
Un o'r tadau tua thre;
Câr gwirionedd a daioni
Ar y ddaear oedd efe;
Y mae hiraeth yn ein calon
Ar ei ol mewn anial dir;
Pan oedd nos yn llethu Seion
Iddi bu'n oleuni clir.

II.

Dad trugarog! os yw'r tadau'n
Rhoi ffarwel o un i un;
Nid oes cysgod cyfnewidiad
I dy gariad mawr dy Hun;
Aros mae dy drugareddau;
Aros mae dy wenau glân;
O! am brofi yn yr angladd
Nodau dy dragwyddol gân.

ALVA.

*Chwef. 19, 1908.*

## ER COF AM T.T.

MAE glesni gwanwyn newydd yn dyfnhau ar feusydd dyffryn Clettwr, a chân y deryn du yn adseinio yn yr hwyr yn nrain y Fadfa ac yn helyg bronydd Cribor; ond ofer deffroad y gwanwyn a chân aderyn y cyfnos i glustiau'r

Hynafgwr T.T.;

y maent wedi suddo i fudandod y bedd, yn fyddar i gerdd y gwanwyn a llais edn yr hwyrddydd. Syrthiodd i lawr o gangen bywyd fel un o ddail olaf hydref, mor dawel, mor esmwyth, mor ddidwrf. Yr oedd pluen eira yn ddigon i beri tori y cwlwm a'i daliai, a disgynodd i'r ddaear mor addfed, mor naturiol, mor ddiboen. Yr oedd cymaint swyn yn ngauaf oes T.T. ag sydd yn ngwanwyn bywyd aml un; glanach oedd blodau'r pren almon ar ei ben ef na rhos ieuenctyd ar rudd rhiandod.

Cafodd oes hirfaith, lydan a chyfoethog. Rhy aml yr estynir dyddiau dyn ar draul culhau ei fywyd. Mor fynych y clywn am rhyw hen wr, mewn congl anghysbell o'r wlad, yn byw mewn symledd dinôd, heb erioed ddysgu darllen nac ysgrifenu—yn byw oes hir ryfeddol, yn mwynhau iechyd ffwyddi lawer wedi i'w gyfoedion ymadael i lechu yn llwch y llan—hen wr, mewn gair, ac angau fel pe wedi anghofio galw heibio iddo. Hyfryd clywed am rai yn cyraedd henaint fel hyn—ond wedi'r oll, oes gymharol ddifudd yn aml arweinia 'r hen bererinion hyn, a mwy o gywreindeb nag o werth yn perthyn i'w bywyd. Ond oes lawn fu oes T.T., wedi ei chysegru i waith, a hwnw'n waith yn yr ystyr uchaf, o'i dechreu hyd ffwyddi llesgedd a methiant. Yn wir gweithiodd mor galed pan yn y coleg, fel yr ofnai'r meddyg,

Yr hen Ddr. Thomas, Dol'llan,

os nad wyf yn camgymeryd, yr ymaflai'r darfodedigaeth yn nghyfansoddiad y pregethwr ieuanc. Ond anaml y mae diwydrwydd yn lladd; y mae diogi wedi gyru mwy i'r beddrod mewn blwyddyn, nag yw gwaith mewn canrif.

Cadw ysgol hyd yr wythnos, parotoi gwersi, a chyfansoddi pregethau yn yr hwyr, a theithio milldiroedd meithion i bregethu ar y Sul, ac i angladdau pell ac agos ar hyd yr wythnos—dyna ei hanes am y deng-mlynedd-ar-hugain nesaf. Ac yr oedd yn llawer cryfach ar ddiwedd y cyfnod hwn nag ar ei ddechreu.

Gwr call, cyflawn, synwyrol oedd efe—mwy cymhesur na'r Cymro cyffredin. Pan yn y Coleg hoff oedd ganddo athroniaeth rhif a mesur, ac o'r braidd na charai 'n fwy ganlyn Euclid na Homer, a myfyrio Mathematics yn hytrach na dotio ar farddoniaeth Virgil.

Nid am nad oedd yn caru'r awen ychwaith, oblegid canodd lawer o benillion hyd ei oes, fel rheol yn y cywair ysgafn, ond ar droion yr oedd gwir dynerwch yn dynodi ei gerdd. Nis gwn a ydyw

"Can y Poni"

erioed wedi ei chyhoeddi yn ei chyflawnder, beth bynag am hyny, y mae ynddi lawer iawn o'r nerth hwnw sydd bob amser yn cyfodi oddiar wir deimlad. Ond nid fel bardd nac ysgolor, efallai nad fel pregethwr ychwaith, yr êl cof Tomos Tomos yn enwog yn Sir Aberteifi, eithr fel ysgolfeistr hen ysgol Pontsian. Aml y clywais ffermwr cryf o gorff a da ei fyd yn dweyd fod iâs o ddychryn yn myned drosto o hyd pan y cyfarfyddai Mr. Thomas ar yr heol—oblegid yr oedd yn ddisgyblaethwr llym, yr hyn oedd yn dra angenrheidiol yn nyddiau geirwon ysgol Pontsian. Dywedir am dano yn y dyddiau hyny, y byddai yn llwyr newid ei agwedd wedi croesi'r bont yn union cyn cyrhaedd yr ysgol. Pwy nad yw wedi clywed y degau o hanesion digri a adroddir am ei ysgolorion? Pa ganoedd eill ganu 'r hen benill lleol :—

Do mi halais amser llawen
Pan yn ysgol Llwynrhydowen,
Ac yn dilyn y pysgotwr
Ar hyd glannau'r afon Clettwr.

Er's rhai blynyddau y mae ei lais perorus gwrol wedi tewi yn y pwlpud, y mae ei eiriau difrif a soniarus wedi peidio mewn angladd a chymanfa; eithr heddyw y mae wedi suddo i fudandod bythol y bedd. Egwan ydoedd er's ychydig flynyddau, ond yr oedd ei ysbryd yn ddedwydd, a'i gorff, er yn gwywo, yn hollol ddiboen. Hoffai adrodd am a fu, ac anwyl ganddo ystraeon y dyddiau gynt. Cofiai am

Daniel Ddu athrylithgar

yn ei ddyddiau blodeuog, buasai yn gyfaill mynwesol i Amnon; mewn gair yr oedd yn gadwen gydiol ag oes sydd a'i theithi yn prysur ddiflanu i bellder barddonol amser hapus "ys llawer dydd." Materol ac annyddorol bob amser yw'r hyn sydd yn ein cylchynu; ond yn ystori T.T. caed darlun o ramant y dyddiau gynt. Gresyn garw yw iddo ein gadael heb ysgrifenu ei gofiant; buasai hanes personol yr hen gawr o Bantdefaid yn gaffaeliad nid bychan i hanes ein gwlad, ac yn bennod o'r mwyaf dyddorol yn hanes

Tir Anwyl Ceredigion.

Y mae deigryn ar ein grudd wrth gofio'r hen bererin urddasol, ond mae bywyd cyfoethog T.T., a'i farwolaeth naturiol ac addfed yn ein cymodi a ffyrdd rhagluniaeth. Trist gweled gwywo blodeuyn Ebrill, galarus gwelwi o rosyn haf, a del deigryn i'r llygad wrth

weled syrthio o ddeilen hydref; ond pan welwn flodeuyn yn plygu pen i farw dan bwys eira Rhagfyr, y mae halltrwydd y deigryn yn troi'n felusder.

Aml y cefais y pleser o'i gyfarfod a'i ffon yn ei law, rhwng Allt-yrodyn a Chastellhywel, yn enwedig ar ddydd o haf; ond mwyach y llwybrau hyn nis gwelant ef, "a'i le nid edwyn mohono mwy." Hun yn dawel, hen bererin anwyl, o dan ddaear tir dy dadau; y mae craith rudd-goch yn anurddo pen y bryn lle mae dy feddrod, ond buan y del y gwanwyn i hau hadau bywyd ar y fan, a chyn hir gwena'r blodau gwyllion uwch y graian lle y gorweddi yn dy olaf gwsg. Wyt ti'n ddiystyr o lais y gwanwyn? Glywi di gân y mawl o fewn dy hen gapel? Ddychweli di weithiau eto i 'wrando murmur bêr y dwr' ar lanau Clettwr? Er fod dy gorff wedi ail ddychwelyd i fôr bywyd anian; er i'th yspryd lechu oesoedd yn nhir yr anhysbys, diau yr erys dy gôf am ddyddiau lawer i ddod, ag y

BYDD DY ENW YN OGONEDDUS

yn nyffryn dy enedigaeth am flynyddau meithion. Galarwn heddyw am dy farw; ond yforu sychir ein dagrau, ac ni erys ond dy fywyd llawn, cryf, a chyfoethog. Coded dyffryn Clettwr lawer o gewri o'th fath, a bydd Cymru yn falch o'r fangre, a'r wlad yn oludocach o honi.

SARNICOL.

## Y PARCH. THOMAS THOMAS, Y.H.

1824—1908.

Foreu Mercher, y pedwerydd dydd ar bymtheg o fis bach, gwelid torf fawr o bobl yn araf deithio trwy ddyffryn tlws y Glettwr yn nghyfeiriad Macpela'r fro, sef mynwent Pantdefaid—un o erwi prydferthaf Duw, lle y cysegra y byw eu llafurus gariad i gadw yn lân ac yn gryno orweddleoedd eu hanwyliaid. Ymdyrai y dorf o bell ac agos, a theithiasai nifer fawr o honynt dros fencydd uchel am filldiroedd meithion er bod yn bresenol ar awr gynar yn y dydd i hebrwng yr hyn oedd farwol o un a gyfrifid gan farn un-farn y bobl yn

FRENIN Y FRO.

Dyma ddydd arwyl y Parch. Thomas Thomas. Wrth sylwi ar gyfeillion yr hybarch wron oedd newydd gael ei alw o faes y frwydr,—oreugwyr Ceredigion, a bechgyn glewaf y Sir ydynt heddyw ar wasgar trwy bob cwr o'r deyrnas,—oll wedi ymgyniwair yn ol i hen fangre eu maboed, yn llawn o adgofion melus am gymwynaswr goreu boreu eu hoes—nis gallwn lai na gofyn i mi fy hun, pwy yw gwir adeiladwyr y genedl? Elai fy meddwl ar unwaith heibio i'r rhai a

eisteddant ar uchel-leoedd ein gwlad; a heibio i'r sawl a gyfenwir yn fawrion y deyrnas—ac elai yn naturiol i ryw gwmwd neillduedig yn nghanol y wlad, lle mae

UN O FONEDDWYR GWIRIONEDDOL DUW

wedi bod, am yspaid oes faith, yn gweithio yn dawel ac yn ddiystyr gan y byd prysur y tuallan, ac yn gosod i lawr sylfaeni tô o wyr a gwragedd oeddent i addurno y cylchoedd y llafurient ynddynt, ac i gyfoethogi hanes eu gwlad am byth. Hen ysgolfeistri Cymru! Cymwynaswyr penaf y genedl! pwy fyth a edrydd y ddyled y mae Cymru dani i'r gweithwyr ffyddlon hyn a fuont yn llafurio mor egniol yn nydd y pethau bychain ar addysg yn Nghymru, ac yn parotoi ar gyfer tymp amser gwell yn hanes ein gwlad. Wrth weled bechgyn Sir Aberteifi—y rhan fwyaf o honynt erbyn hyn yn benwyn ac yn dechreu gwargamu—yn tywallt eu dagrau gonest wrth wylied y ddrama olaf yn hanes

YR HEN YSGOLFEISTR ENWOG

o Bontsian, pwy all fesur dylanwad yr ysgolfeistr hwnw, a phwy all gyfrif y cymeriadau disglaer a foldiwyd wrth draed yr athraw hynaws yn yr hen ysgol lwyd ar lan y Glettwr. Yno, o gylch man fechan ei fedd, y safent, yn offeiriaid a phregethwyr, yn gyfreithwyr a meddygon, yn forwyr ac amaethwyr, yn siopwyr ac yn weithwyr mewn amryw gylchoedd eraill, y dagrau yn dallu eu llygaid, a thristwch yn peri i'w llais fod yn rhy floesg i dori gair o gydymdeimlad wrth y perthynasau—ac yn chwerwder eu hysbryd cludid hwy yn ol ar edyn eu hadgofion i dymor diofal a diofid eu plentyndod, a gwelent eu hunain unwaith eto yn blant yn yr hen bentref gwledig, a chlywent eto lais yr hen athraw yn eu cynghori a'u cyfarwyddo. Dyma'r gyfaredd swynol sydd yn diddymu y presenol, ac yn peri i ni oll ar brydiau, ddyfod yn blant unwaith eto yn mhob purdeb a diniweidrwydd. Fel y dywedais, yr oedd y cynhebrwng yn lluosog iawn, ac nid dyn o gymeriad cyffredin allasai dynu gwlad gyfan oddiwrth ei gorchwylion i dalu iddo y gymwynas olaf. Ar bob llaw gellid deall fod

UN O GEDYRN Y WLAD

wedi syrthio.

Mab ydoedd i John a Jane Thomas, o'r Fadfa, amaethdy yn mhlwyf Llandyssilio-gogo, nid nepell o'r brif ffordd a arweinia o Landyssul trwy Dalgareg i Geinewydd, ac yn yr amaethdy clyd hwnw y ganed ef ar y 6ed o Ionawr, 1824. Yn wahanol i lu o fechgyn ieuainc yn ymbarotoi ar gyfer gwaith y weinidogaeth yr oedd rhieni Mr. Thomas yn gefnog yn y byd, ac o'r herwydd, yn alluog i roddi i'w mab yr addysg oreu. Cedwid pob ysgol o unrhyw fri yn Sir Aberteifi ar y pryd gan weinidogion perthynol i'r Undodiaid, ac i'r ysgol a gedwid gan y Parch. John Davies, Llwynrhydowen, y danfonwyd y bachgen gyntaf. Bu wedi hyny yn ysgol y Parch. John Thomas, Llandyssul, a phan oedd ei fryd wedi ei lawn osod ar y weinidogaeth, aeth at y Parch. Rees Davies, gweinidog Ystrad Aeron a Chapelygroes, yr hwn oedd yn ewythr iddo, brawd ei fam, i ymbarotoi ar gyfer y Coleg. Yn mis Medi, 1842 derbyniwyd ef i'r Coleg, ac yn fuan ymledodd ei enwogrwydd trwy y sefydliad fel efrydydd rhagorol a llwyddianus. Ei hoff bynciau oeddynt mesuroniaeth a'r ieithoedd clasurol, ac mor drwyadl oedd ei wybodaeth o'r Hebraeg fel y tynodd ei bapyrau yn yr arholiad diweddaf sylw mor arbenig ag i gael yr anrhydedd o'u crogi yn mhrif ystafell y Bwrdd Henadurol yn Llundain. Yn mhen blynyddau ar ol iddo adael y Coleg, dewiswyd ef gan yr awdurdodau i fod yn

### Arholwr yn yr Hebraeg

yn y sefydliad y cafodd efe ei hun ei addysg ynddo. Ar ol gyrfa a adlewyrchai y clod mwyaf arno fel efrydydd gonest a diwyd, penodwyd ef yn y flwyddyn 1847 yn weinidog eglwys Pantdefaid, ac yn mhen deng mlynedd wedi'n, yn 1857—ar farwolaeth ei ewythr, y Parch. Rees Davies, yn weinidog Capelygroes. Am yn agos i ddeugain mlynedd bu y ddwy eglwys hon o dan yr un weinidogaeth, a phan gofier fod y ddau gapel filldiroedd lawer y naill oddiwrth y llall, a bod y gweinidog yn gwasanaethu yn y ddau le bob Sul, nis gallwn lai nag edmygu hunan-aberth ac ymgysegriad y gweinidog a feiddiai deithio trwy bob tywydd, haf a gauaf, heb dderbyn ond ychydig iawn o dâl yn gydnabyddiaeth. I ychwanegu at ei lafur, ac hefyd i ddwyn mâl i'r felin, agorodd ysgol yn Aberglasne, ar bwys Pontsian, ar y 18fed o Hydref, 1847, ac yn fuan iawn aeth sôn am lwyddiant anarferol yr ysgolfeistr ieuanc ar led, a daeth ysgol Pontsian yn

### Un o'r Ysgolion Enwocaf yn Nghymru.

Heblaw cyfranu gwybodaeth yn y canghenau hyny o addysg a efrydir mewn ysgolion yn gyffredin, ymgyflwynodd Mr. Thomas i'r gorchwyl o feistroli rheolau morwriaeth, ac y mae yn ddiamheu genyf i ganoedd o forwyr fod yn ei ysgol, ac ar un adeg ni cheid nemawr i gadben llong ar dueddau bau Aberteifi nad oedd wedi cael cynorthwy i ymberffeithio yn ei gelfyddyd gan ysgolfeistr Pontsian. Mewn erthygl ar A. Emrys Jones, M.D., J.P. o dan y penawd, "Notable Welshmen"—yr hon a ymddangosodd yn y *South Wales Weekly Post*, gwneir y cyfeiriad a ganlyn at ysgol Pontsian:—"Yn y lle dinod hwn, darfu i weinidog parchus ac apostolaidd Pantdefaid am ddeugain mlynedd, gynal un o'r ysgolion preifat mwyaf llewyrchus yn Nghymru, a gellir dywedyd yn ddibetrus ei fod heb un cynorthwy wedi parotoi nifer mwy o ddynion ieuainc ar gyfer yr Eglwys—cydffurfiol ac anghydffurfiol—y gyfraith, meddyginiaeth, masnach, a'r môr, na neb o'i gyd-oeswyr. Nad ba beth a feddylir am Undodiaeth fel *system* o dduwinyddiaeth, rhaid caniatau fod ei gweinidogion, oddiar amser y

### Bardd o Gastell Hywel,

wedi cadw canwyll dysgeidiaeth yn llosgi ac yn ddisglaer yn ein plith."

Fel pregethwr, nid oedd neb yn mhlith yr Undodiaid, a chroesaw cynhesach iddo gan yr holl eglwysi. Dywed gohebydd i'r *Western Mail*, mewn cofnodiad am Mr. Thomas, mai rhyfeddod yw gweled gweinidog Undodaidd yn ymgeisio am boblogrwydd fel pregethwr, a deil nad oedd Mr. Thomas yn eithriad i'r rhelyw o honynt. Er hyn i gyd yr oedd yn siaradwr hwylus, a'r portread goreu feddai yr enwad o un ysgol parthed syniadau duwinyddol. Nis gallai ei arddull dawel, difrifol o siarad, ei barabliad pwyllog, croew, a'i osgo fawreddog yn y pwlpud, lai na thynu sylw mwyaf astud y gynulleidfa. Fel y dywedodd un o'r siaradwyr ddydd ei angladd, nid oedd weinidog yn nghanolbarth Ceredigion yn fwy adnabyddus, na neb a wasanaethodd yn amlach mewn angladdau yn amaethdai a bythynod tô gwellt yr ardal o

### Ddyffryn Aeron i Landyssul,

a sicr yw y cofir yn hir ei gynghorion dwysion, a'i eiriau tyner oeddynt yn falm i'r galon friw. Yn ystod ei oes faith cymerodd ran flaenllaw yn holl fudiadau cyhoeddus ei ardal, a chan ei fod fel Saul yn uwch o'i ysgwyddau i fynu na'i holl gydardalwyr, aethai pawb ato am gyfarwyddyd, a byddai hwnw bob amser yn un dyogel.

Bu am dymhor hir yn aelod o'r Bwrdd Ysgol, yn aelod o'r Cynghor Sir, ac ar ei ymneillduad o'r weinidogaeth, dyrchafwyd ef i'r fainc ynadol dros ei sir enedigol. Cafodd

bob anrhydedd a allai gwerin ddiolchgar roddi iddo. Yr oedd yn ysgrifenydd galluog iawn, a gwnaeth lawer yn y cyfeiriad hwn, yn enwedig ar dudalenau Yr Ymofynydd. Os nad wyf yn camsynied, y peth diweddaf o bwys a ysgrifenodd oedd yr erthyglau campus a anfonwyd ganddo i'r Ymofynydd ar y "Parch. John James, Gellionen," yn y rhai y rhoddodd hanes byw a chynwysfawr o'r gwrthrych, yn nghyd a desgrifiad rhagorol o'r prif fudiadau a gymerasant le yn ystod bywyd yr hen batriarch godidog hwnw. Edrycher arno o ba gyfeiriad a fyner yr oedd Mr. Thomas yn ddyn mawr ac arderchog. Treuliodd auaf-dymhor ei oes yn y Green Park—anedd-dy arddunol mewn paradwys o le, yn ymyl y ffordd rhwng yr hen gapel a'r capel newydd yn Llwynrhydowen. Ar ol deng mlynedd ar hugain o gadw ysgol, ymddeolodd o'r gwaith, ac yntau yn byw yn Nghribor Fawr, ei dyddyn ei hun, ond ar farwolaeth ei frawd yn 1893, symudodd Mr. Thomas a'i deulu i Green Park, ac yno y trigianodd weddill ei oes. Digonwyd ef â hir ddyddiau, oblegid ar adeg ei farwolaeth, Chwefror 15ed, yr oedd ychydig wythnosau dros ei 84 mlwydd oed. Er ei fod, er's rhai blynyddau bellach, wedi encilio o faes pob gwaith cyhoeddus, eto rhoddodd y newydd am ei symudiad frath i'r fron, ac nis gallwn lai na theimlo fod y weinidogaeth Undodaidd yn Nghymru yn dlotach nag y bu er's amser hir, ac wedi ei hamddifadu o un a roddai urddas arni.

Anichon yw rhoddi rhestr a fydd yn debyg o fod yn gyflawn—o'r sawl oeddynt yn bresenol yn yr angladd. Rhy anhawdd oedd craffu ar bob un mewn torf mor fawr. Yn mhlith eraill, gwelsom y Parchn. R. J. Jones, M.A., Aberdar; John Davies, Alltyplacca; R. C. Jones, Llanbedr; T. Lloyd Jones, Lerpwl; David Evans, Cribyn; T. Arthur Thomas, Pantdefaid; Lewis Williams, Rhydygwin; J. Hathren Davies, Cefncoed; D. G. Rees, Penybont-ar-ogwr; E. O. Jenkins, Llwynrhydowen; Simon Jones, B.A., Abertawe; Geo. Eyre Evans, Aberystwyth; W. T. Francis (B.), Aberduar; W. V. Edwards (A.), Saron, Llangeler; J. T. Hughes, Ficer, Llanfihangel-ar-arth; J. Jones, Ficer, Llandybie; E. P. Jones, Ficer, Moylgrove; T. Enoch, Ficer, Bwlchgwyn; J. A. G. Howell, Curad, Llandyssul; W. A. Jones (B.), Ceinewydd.

Yn y tŷ, cyn cychwyn, darllenwyd gan y Parch. Hathren Davies, a gweddiwyd gan y Parch. T. Arthur Thomas. Wedi cyrhaedd y capel, darllenwyd rhanau tarawiadol o'r Ysgrythyrau gan y Parch. R. C. Jones, a thraddodwyd anerchiadau byrion, ond hynod bwrpasol gan y Parch. R. J. Jones, a'r Parch. John Davies. Cymerodd Mr. Jones yn arwyddair i'w sylwadau yr un geiriau ag a gymerasid gan Mr. Thomas ei hun dros dair blynedd a deugain yn ol, yn angladd y

Diweddar Owen Evans,

sef "Meddyliwch am eich blaenoriaid," &c., ac wrth sylwi ar wynebau y dorf enfawr teimlwn yn sicr fod apeliadau taerion Mr. Jones yn dderbyniol iawn. Adgofion hen ddysgybl oedd gan Mr. Davies, ac yn ei ddull, syml, prydferth ei hun, dygodd Mr. Davies holl nodweddion caritor godidog yr ymadawedig ger bron y gynulleidfa yn hynod dda, a phwysfawrodd yr elfen garedig yn y caritor hwnw, a'r cymwynasau fil a dderbyniasai ar law Mr. Thomas. Offrymodd Mr. Davies weddi fer ar lan y bedd, yr hyn a derfynodd y gwasanaeth.

Eiddunwn ar i ymgeledd y Tad goreu noddi y weddw, y ferch, y chwaer, a holl gylch y perthynasau yn eu tristwch, ac iddo daenu drostynt fantell ei gariad i'w hamddiffyn rhag ystormydd geirwon y byd.

*Cefn.* J.H.D.

AR FEDD Y PARCH. THOMAS THOMAS, PANTYDEFAID.

Ar aden ddu, daeth Hiraeth trwm
Dros Aberteifi eto, do ;
Mae cwmwl adfyd ymhob bro,
A galar gerdd dros las bob cwm.

"Green Park" ar ol "Brynhyfryd" sydd
Yn gwisgo adfyd a phruddhad,
Hêd salmau gofid dros y stad
Am huno un o gewri'r ffydd.

Aeth Thomas Thomas tua'r glyn,—
Yr ysgolhaig a'r athraw mad,
Yn nydd ei nerth bu'n ddydd i'w wlad
Ar lethrau yr addysgol fryn.

Apostol cariad fu efe,
Bugeilwas "Pantydefaid" glan,
Blynyddau 'i fywyd yn Pontsian
Flodeuant fel boreuau'r Ne'.

Mae'r enwad dan ei fantell ddu,
Saif cenedl fawr ar fin ei fedd,
Mae dagrau cariad ar bob gwedd,
Am gladdu gwr a fu mor gu.

"Green Park"! "Green Park"! na wyla di'n
Ormodol am dy athraw gwyn,
Mae'th obaith di yn fwy na'r glyn—
Byw yw dy arwr ynom ni.

Nid marw Thomas Thomas, na !
Mae'i goffa fel difachlud wên,
Ni fedr Rhinwedd fyn'd yn hen,
Anfarwol byth yw bywyd da.

ALVA.

SALMAU COFFA.

Dau arwyr gollwyd yn y glyn,
Brynhyfryd a Green Park sy'n brudd ;
Mae dagrau hiraeth ar bob grudd,
Yn absenoldeb dau mor wyn.

Yn ieuainc fuont ; er cael loes,
Ni fradychasant farn a ffydd,
Ac am bregethu crefydd rydd,
Clybuwyd gwaedd—"a hwynt i'r groes."

Bydd pob diwygiwr eto'n fyw,
Diwygwŷr ydynt dduwiau'r byd,
A chroesau ydynt lwybrau drud
Sy'n gwneud y dyn o hyd yn Dduw.

Mi glywaf ywen werdd y llan
Yn llesmair cân tragwyddol ddydd;
Daioni ar ei ymdaith sydd,
Medd duwiau'r bywyd yn mhob man.

BANOS.

YMWELIAD A'R HEN LWYBRAU.

*T. T. yn Ymofynydd 1861.*

Hen lwybrau fy ienctid ! mi gofiaf am danoch,
Tra chofiwyf am un o gain fanau fy ngwlad,
I'm meddwl plentynaidd gan waith y rhoddasoch
Gyflawnder dedwyddyd yn rhwydd ac yn rhad.

Fy llygaid yr awrhon sy'n orlawn o ddagrau,
A'm traed hyd y llwybrau byth-gofus eu hynt :
Rhyw fil o adgofion yn llawn melusderau
Sy'n chwyddo fy mynwes ! O'r hen amser gynt !

Pa faint o gyfoedion borëol fy mywyd
Sydd 'nawr yn nghell angau yn dawel o glyw !
O'm cydysgolheigion yn nhymor fy ienctid,
Pa faint sydd o honynt yr awrhon yn fyw ?

Mae'r ardal o gwmpas yn llawn cyfnewidiad—
Gwnaeth nerthol law amser yn rhyfedd ei rhan ;
'Does nemawr wy'n adwaen rydd imi gyfarchiad,
Wynebau dieithriaid wy'n weld yn mhob man.

A minau o'r golwg yn fuan a giliaf,
Fy lle gyda'm tadau ar fyrder a fydd
Yn nghladdfa Pantdefaid, hyd dymp y dydd olaf,
Pan esyd Duw'r nefoedd y meirwon yn rhydd.

Dod gymorth, Dad anwyl, i fyw yn rhinweddol
Dros weddill fy amser hyd lwybrau'r hen fyd,
Fel caffwyf iawn fwyniant o'r nefoedd dragwyddol
Yn nghwmni'm cyfeillion rhagorol i gyd.

YMWELYDD.

## "BYWYD IESU" GAN RENAN.

### PENNOD II.

ADDYSG IESU.

Yr amgylchoedd llon ond mawreddog hyn roddasant i Iesu ei holl addysg. Yn ddiameu, dysgodd ddarllen ac ysgrifenu, yn ol dull y Dwyrain, drwy gael rhwng ei ddwylaw lyfr a adroddai mewn tôn uchel gyda'i gymdeithion bychain, nes y dysgai'r oll ar dafod leferydd.

Yr ysgolfeistr yn y trefydd bychain Iddewig hyn oedd yr *hazzan* neu ddarllenydd y Synagog. Ni fynychodd Iesu ond ychydig o ysgolion uwch yr ysgrifenyddion (efallai nad oedd yr un yn Nazareth), ac ni feddai'r teitlau hyny a olygant wybodaeth i lygaid pylion yr anoeth.

Camgymeriad o'r mwyaf fyddai haeru fod Iesu, fel y dywedwn, yn anwybodus. Y mae addysg ysgol, yn ein plith ni, yn gwneud gwahaniaeth mawr rhwng gwerth personol yr hwn sydd wedi ei derbyn a'r hwn na chafodd mo honi erioed. Nid felly yr oedd yn y Dwyrain, nag ychwaith yn nyddiau da yr hynafiaid gynt. Y mae'r sefyllfa o anwybodusrwydd ac anfoesgarwch yr hwn, yn ein plith ni, yn herwydd eu bywyd unigol ac hunangeisiol, na fu erioed mewn ysgol, yn beth dieithr yn y gwledydd Dwyreiniol hyn, lle mae diwylliant moesol, ac uwchlaw dim, yspryd cyffredinol yr oes yn cael ei ledaenu yn barhaus drwy gymdeithas dyn a dyn.

Y mae'r Arab yn fynych yn ddyn o urddas, er na fu iddo erioed yr un athraw, oblegid y mae ei babell bob amser yn fath o athrofa a'i drws yn agored, lle y cychwyn yn fynych symudiad meddyliol ac hyd yn oed llenyddol, drwy gyfarfyddiad gwyr o fri a deall. Y mae lledneisrwydd moesau, a thynerwch yspryd, yn y Dwyrain, yn bethau hollol ar wahan i'r hyn a alwn ni yn addysg. O'r ochr arall, edrychir ar wyr yr ysgolion yn fynych fel pobl anfoesgar a choeghyddysg. Yn yr ystad gymdeithasol hon, nid yw anwybodaeth, a gondemnia un i sefyllfa isel yn ein plith ni, ond amod pethau mawrion a gwreiddiolder aruchel. Nid yw'n debyg ei fod yn gwybod Groeg. Nid oedd yr iaith hon wedi ymdaenu llawer yn Judea oddigerth yn mysg

y dosparth llywodraethol ac yn y trefydd a drigienid gan y paganiaid, fel Cesarea. Tafodiaith briodol Iesu oedd y gymysgiaith o Syriaeg ac Hebraeg a leferid ar y pryd yn Mhalestina. Mwy anhebygol fyth oedd ei fod yn gwybod dim am ddiwylliant Groeg. Yr oedd y diwylliant hwn yn cael ei wahardd gan ddysgawdwyr Palestina, y rhai a osodent dan yr un felldith "Yr hwn a fagai foch a'r hwn a ddysgai i'w fab athroniaeth Groeg." Fodd bynag, nid oedd y ddysgeidiaeth wedi cyrhaedd trefydd bychain fel Nazareth. Hyd yn oed yn Jerusalem, nid oedd llawer yn astudio Groeg; yr oedd yr efrydiaeth o'r iaith yn cael ei hystyried yn beryglus ac hyd yn oed yn wasaidd; ar y goreu, nid edrychid ar bethau Groegaidd ond yn teilyngu sylw merchetos. Astudio'r gyfraith oedd yr unig efrydiaeth eang teilwng o wr difrif. Gofynwyd i Rabbi unwaith pa bryd y dylid dysgu "doethineb Groeg" i blant, a'i ateb oedd, "Ar yr awr pan nad yw ddydd na nos, canys y mae'n ysgrifenedig am y gyfraith,—ddydd a nos bydded dy feddwl arni." Ni ddaeth yr un elfen o athrawiaeth halogedig i gyffyrddiad â Iesu, yn uniongyrchol neu anuniongyrchol. Ni wyddai ddim y tu allan i Iddewaeth; cadwodd yn barhaus y natur agored a syml hono a wanychir bob amser gan ddiwylliant helaeth ac amrywiol. Hyd yn oed yn mynwes Iddewaeth, ar un llaw, yr oedd bywyd duwiolfrydig yr Esseniaid neu'r iachawdwyr, ac ar y llaw arall y syniadau prydferth ar athroniaeth crefydd a ddysgid yn ysgol Iddewig Alexandria, a Philo yr esboniwr galluog iddynt, yn gwbl anadnabyddus iddo.

Y mae'r tebygolrwydd mynych a geir rhyngddo a Philo, y gwirebau rhagorol hyny am gariad Duw, am elusen, am orphwys yn Nuw, y rhai ydynt megys adsain rhwng yr Efengyl ag ysgrifeniadau y meddyliwr godidog o Alexandria, yn tarddu o dueddiadau cyffredin blanwyd mewn eneidiau aruchel gan angenrheidiau'r oes. Yn ffodus iddo ef, nis gwyddai chwaith am yr ysgolheiciaeth hynod hono a ddysgid ar y pryd yn Jerusalem, o'r hon yn fuan yr oedd y Talmud i gael ei fodolaeth.

### Y Talmud.

Os oedd rhai Phariseaid eisoes wedi eu dwyn i Galilea, ni wnai ef ymgyfathrachu â hwy, a phan y daeth i gyffyrddiad yn ddiweddarach â'r ddysgeidiaeth ynfyd hon, ni wnaeth ond ei lanw o adgasrwydd tuag ati. Gellir tybio, er hyny, nag oedd yn anwybyddus o egwyddorion Hilel. Haner canrif o'i flaen yr oedd Hilel wedi dweyd gwirebau oeddynt yn dra thebyg i'w osodiadau ef. Yn rhinwedd y tylodi a ddioddefai mor amyneddgar, tynerwch ei gymeriad, a'r gwrthwynebiad a roddai i'r rhagrithwyr a'r offeiriaid, Hilel oedd gwir athraw Iesu, os iawn siarad am athraw wrth son am wreiddioldeb mor aruchel. Gwnaeth ddarllen llyfrau'r Hen Destament lawer o argraff arno. Yr oedd canon y llyfrau sanctaidd yn cynwys dwy brif ran, y Gyfraith, hyny yw y Pum Llyfr, a'r Prophwydi, fel y maent genym heddyw. Yr oedd cyfundrefn enfawr o esboniadaeth ddamegol yn cael ei chymwyso at y llyfrau hyn, gan geisio tynu allan o honynt yr hyn oedd yn cyfateb i ddyhead yr oes. Ond yr oedd gwir farddoniaeth y Beibl, anweledig i ddysgawdwyr Jerusalem, yn llawn ddadguddio ei hun i deg athrylith Iesu. Nid ymddengys fod y Gyfraith yn meddu llawer o swyn iddo; credai y gellid gwell. Ond yr oedd barddoniaeth y Salmau mewn cydgord rhyfedd a'i enaid telynegol ef; drwy ei fywyd, hwy oeddynt ei gynaliaeth a'i nerth.

Y prophwydi, yn enwedig Esaiah, a'i olynydd yn amser y caethiwed, gyda'u breuddwydion disglaer am y dyfodol, eu hyawdledd angerddol, eu melldithion yn gymysgedig a darluniau cyfareddol—hwy oeddynt eu gwir athrawon. Yn ddiau darllenai amryw weithiau a ystyrid yn Apocrypha, hyny yw, ysgrifeniadau tra diweddar y gwnai eu hawduron, er mwyn enill

awdurdod na phriodolid mwyach ond i'r llyfrau hynaf, guddio eu hunain dan enwau prophwydi a phatriarchiaid. Yr oedd un o'r llyfrau hyn yn ei fawr swyno, sef Llyfr Daniel. Yr oedd y llyfr hwn wedi ei gyfansoddi gan Iddew o ysbrydoliaeth uchel, yn amser Antiochus Epiphanes, ac wedi ei adael ganddo dan enw hen ddoethwr. Cynhwysai grynodeb o dueddiadau yr oesau diweddaf hyn. Yr oedd ei awdwr, gwir grewr athroniaeth hanes fel y gellid ei ystyried, wedi beiddio gweled am y waith gyntaf, nad oedd symudiad y byd ac olyniaeth teyrnasoedd ond cyfres o ffeithiau yn gweithio yn israddol i dynged pobl Israel. Efallai ei fod hefyd yn darllen llyfrau Enoch, a berchid y pryd hwn yn gymaint a'r llyfrau sanctaidd, a'r llyfrau eraill o'r un natur, a gymerent ran mor bwysig yn symudiadau meddwl y dydd. Dyfodiad y Messiah gyda'i ogoniant a'i ddychryniadau, y teyrnasoedd yn dymchwelyd ar eu gilydd, distryw y nefoedd a'r ddaear, oedd testyn eu dychymyg, a chan y tybid fod y chwyldroadau hyn yn agos, a fod llawer yn ceisio cyfrif amser eu dyfodiad, yr oedd y pethau goruwchnaturiol a ddengys gweledigaethau o'r fath yn ymddangos iddo ef yn berffaith naturiol a syml.

Y mae'n dra amlwg oddiwrth ei ddywediadau mwyaf dilys nad oedd ganddo fawr o wybodaeth am sefyllfa gyffredinol y byd. Yr oedd y ddaear o hyd, iddo ef, yn rhanedig i deyrnasoedd yn rhyfela'n barhaus a'u gilydd; ymddengys na wyddai am yr "heddwch Rhufeinig" a sefyllfa newydd cymdeithas a gychwynwyd yn ei oes. Nid oedd ganddo feddwl clir am y gallu Rhufeinig; enw Cesar yn unig a gyrhaeddodd ato ef. Gwelodd adeiladu yn Galilea neu'r cylchoedd, Tiberias, Julias, Diocaesara, Caesarea, gweithiau rhwysgfawr yr Herodiaid hyny, a geisient drwy'r adeiladau ardderchog hyn, brofi eu hedmygedd o'r gwareiddiad Rhufeinig a'u teyrngarwch i aelodau teulu Augustus, enwau y rhai erbyn heddyw, drwy ryfedd dynged, ac wedi eu cyfnewid mewn modd digrifol, a arddangosant rai o bentrefi truenus y Bedouiniaid. Tebyg iddo weled Sebaste, gwaith Herod Fawr, dinas goegwych, yr hon, a barnu oddiwrth ei hadfeilion a gludwyd i'w safle wedi ei gwneuthur yn barod, fel peiriant nad oes eisieu ond ei roddi at ei gilydd yn ei le. Gwag-ogoniant yr adeiladaeth hon, a gludwyd yn llwythi i Judea, y canoedd cofofnau cymhesur hyn, addurn rhyw "Rue de Rivoli"* anmhrydferth, dyna'r hyn a elwid ganddo ef yn deyrnasoedd y byd a'u holl ogoniant. Ond yr oedd bywyd moethus ymherawdwyr, a'u celfyddyd lywodraethol a swyddogol yn gas-betbau yn ei olwg. Yr hyn a garai ef oedd pentrefi Galilea, cymysgfa ddidrefn o gabanod, nythau a thyllau yn y graig, pydewau, beddau, coed ffigys ac olewydd. Arosai beunydd yn agos i natur. Iddo ef nid oedd y llys breninol ond lle y gwisgir dillad heirdd ynddo. Y mae'r amhosiblderau swynol sydd yn britho ei ddamegion, pan y darlunia frenhinoedd a gwyr nerthol y ddaear, yn profi nad oedd ganddo ddychymyg am fywyd yr uchel-drâs ond eiddo hogyn syml a gwledig. Llai fyth a wyddai am y gredinaeth newydd, a grewyd gan wyddoniaeth Groeg, sylfaen pob athroniaeth, a'r hon a sicrhawyd yn ddirfawr gan wybodaeth yr oesau diweddaf hyn, sef y gred mewn cau allan y galluoedd goruwchnaturiol a dybid gan yr oesau hynafol yn gyfrifol am lywodraeth yr holl fydysawd.

Nid oedd Iesu'n wahanol i'w gydwladwyr yn ei syniad ar y penawd hwn. Nid oedd y rhyfeddol iddo ef yn beth eithriadol; ond yn beth cyffredin. Nid ymddangosodd syniadau am y goruwchnaturiol gyda'i holl anmhosiblderau, ond yn nydd genedigaeth gwyddoniaeth arbrofiad-

* Ystryd goegwych yn Paris, noddedig am ei diffyg amrywiaeth, lle mae pob tŷ a phob siop yn gywir o'r un faint a'r un ffurf.

ol—yr hon fyn brawf materol o bob peth yn natur. Yr hwn sydd anwybyddus o bob syniad am wyddoniaeth anianol, y gwr a gred y medr newid cwrs y cymylau drwy weddi, y geill atal clefyd ac hyd yn oed angau, ni wel ef ddim niwed mewn gwyrth, canys nid yw holl gwrs pethau iddo ef ond canlyniad o rydd ewyllys y Duwdod.

Dyma ystad feddyliol Iesu drwy ei oes. Ond, yn ei enaid mawreddog ef, cynyrchai'r meddwl hwn effeithiau tra gwahanol i'r hyn a wnai mewn dynion cyffredin. Yn mhlith y werin dywell, yr oedd y gred yn ymyraeth neillduol Duw yn ei harwain i grafangau pob twyllwyr a swynwyr a grwydrent y wlad. Eithr am Iesu, yr oedd ganddo syniad dwfn am berthynas agos Duw a dyn a gorgrediniaeth yn ngallu y bod dynol; cyfeiliornadau prydferth oeddynt wraidd ei nerth; oblegyd os oeddynt i'w cael ar fai ryw ddydd i ddod yn ngolwg y fferyllydd neu'r naturiaethwr, rhoddent iddo ar y pryd ddylanwad ar ei oes mwy nag eiddo neb o'i flaen nag ar ei ol.

Dadguddiodd ei gymeriad ei hun yn gynar. Ymhyfryda traddodiad mewn dangos ei ieuenctyd mewn gwrthryfel yn erbyn gallu ei rieni; a phortreadu y bachgen yn gadael y ffyrdd cyffredin i ddilyn ei swyddogaeth aruchel. Y mae o leiaf yn sicr nad oedd perthynas yn fawr peth yn ei olwg ef. Ymddengys nad oedd ei deulu yn ei garu, ac ar brydiau, y mae'n debyg ei bod yn yn galed arno. Fel pob dyn wedi ei lwyr feddianu gan un meddylfryd, daeth Iesu i edrych ar bob agosrwydd gwaed fel peth hollol ddibwys. Perthynas meddyliol oedd yr unig un mewn natur a fynai ef gydnabod. "Wele fy mam i a'm brodyr," ebe ef, gan estyn ei law at ei ddysgyblion. "Canys pwy bynag a wna ewyllys fy Nhad, efe yw fy mrawd i, a'm chwaer a'm mam." Nid oedd pobl syml y wlad yn ei ddeall felly, ac un diwrnod pan oedd gwraig yn myned heibio iddo, gwaeddodd allan, medd yr hanes:—"Gwyn fyd y groth a'th ddug di, a'r bronau a sugnaist." "Yn hytrach," atebai ef, "Gwyn fyd y rhai sydd yn gwrandaw gair Duw ac yn ei gadw."

## DUW A'I FYD.*

Yn ei erthygl ar Thoreau dywed James Russell Lowell fod Emerson bob amser yn apelio at yr uwchaf a'r lleiaf hunanol ynom, ac y dylem fod yn ddiolchgar am y symbyliad meddyliol a moesol a gyfleir gan ei ysgrifau. Teimlad o ddiolchgarwch cynhes a'n meddiana ar ol darllen y gyfrol dan sylw. Mae Dr. Calthorp yn apelio at yr hyn sydd oreu ynom. Mae ei arddull yn swynol, ei bwerau meddyliol yn hynod graff, ei allu i ymresymu yn finiog a chwim, ac mae yspryd personoliaeth mawr yn ddadguddiedig yn yr oll. Ar ol darllen y llyfr teimlwn rhyw adfywiad ysprydol, fel pe baem wedi bod allan yn unigedd natur ar foreu tesog o

* *God and His World.* Pregethau ar ddadblygiad gan y Parch. Samuel R. Calthrop, L.H.D., May Memorial Church (Unitarian), Syracuse, New York.

Fai, a miwsig unigedd a chynghanedd y bydysawd wedi llanw bywyd a swyn nas gellir ei ddesgrifio. Mae'r gyfrol yn ein cynorthwyo i ymresymu yn gliriach, i ganfod yn fwy eglur fawredd Duw yn y cread yn ogystal ag yn mywyd dyn, ac i sylweddoli y Presenoldeb Dwyfol yn ein heneidiau.

Mae y pregethau yma wedi eu traddodi yn ystod oes hirfaith, y mwyafrif ar achlysuron neilldiuol. Y fath bregethau! Dim ond wyth o honynt sydd mewn llyfr o 285 o dudalenau; ac mae pob un o honynt fel traethawd ar y pwnc ymeflir ag ef. Y diwrnod yr ysgrifenodd Dr. Calthrop y rhagdraeth (Ebrill 12fed, 1905), yr oedd wedi bod yn weinidog am 37 mlynedd yn yr un eglwys. Pregethau hirfaith ac eto gweinidogaeth o ddeugain mlynedd mewn un eglwys. Dyma dysteb i fawredd a gwreiddioldeb pregethwr mewn tref fawr! Ond nid oes yscrafell yn llaw y gweinidog hwn, ac nid oes acen gwynfanus yn ei lais. Apelia gyda sicrwydd at y dwyfol yn y dynol, ac nid ydyw ei apel yn ofer. Dyma deitlau rhai o'r pregethau:—"Duw"; "Crefydd a Dadblygiad"; "Iesu a dadblygiad Teyrnas Dduw"; "Tynged a Rhyddid"; "Duw heb ddyn a Duw mewn dyn"; "Anfarwoldeb," &c. Yn y benod "Un Arglwydd a'i enw yn Un" rhodda yr awdwr y deffiniad canlynol o Fater:—"Matter is a *mode* of motion of Spirit" [Yspryd yn ei ffurf o symudiad ydyw mater]. Yna ceisia yr awdwr arddangos mai canolbwynt o yni (*centre of force*) ydyw yr *atom*. Wedi i'r awdwr ysgrifenu ei bregeth mae gwyddonwyr y byd wedi llwyddo i hollti yr *atom*, a'i ddosranu i filoedd o dameidiau nad ydynt ond megis ffrwd o oleuni neu yni, a gelwir y dosraniadau o'r *atoms* yn *electrons*. Mewn attodiad i'w lyfr mae Dr. Calthrop yn gosod allan ei farn mai yr *electron* nawr ydyw y cylchdro o yni, a chreda fod mater yn cael ei gyfansoddi o'r cylchdroion hyn.

Ond darllenasom ychydig amser cyn marwolaeth Arglwydd Kelvin nad oedd yn credu bellach yn y *theory of vortex atoms*; hyny yw, fod yr *atom* neu yr *electron* yn cael ei wneud i fyny o gylchdro o yni. Os ydyw'r syniad hyn yn nghylch tarddiad mater yn colli'r dydd, mae rhai o ymresymiadau Dr. Calthrop yn colli eu min. Wedi'r cyfan, onid math o *speculation* ar ran dyn ydyw pob ymdrech i esponio y dirgelwch mawr sydd yn nghudd yn y cread? Ac os try gwybodaeth helaethach y dyfodol ffrwd o oleuni newydd ar y pwnc, nid llai ydyw ein dyledswydd i ddiolch fod dyn fel Dr. Calthrop wedi gwneud y ffordd yn fwy goleu, a'r cyffiniau yn fwy amlwg, fel y gall pererinion daear droedio yn fwy hyderus yn nghynteddau yr Hwn luniodd y dirgelwch a phrydferthwch y bydysawd.

*Glossop.* J.T.

## DADORCHUDDIO CERFLUN Y PARCH. R. J. JONES, M.A., ABERDAR.

Un o'r cyfarfodydd mwyaf dyddorol y bum ynddo erioed ar lawer ystyr oedd yr un gynaliwyd Nos Lun, Chwefror 10fed, yn "Ysgoldy Jones," Hen Dy Cwrdd, Trecynon, Aberdar. Bum mewn cyfarfodydd mwy lluosog, a chlywais fwy o hyawdledd, a mwy o sebon meddal yn cael ei ddefnyddio, ond ni fum mewn cwrdd erioed lle yr oedd pob

siaradwr, nid yn ymdrechu "gwneud *stroke*" fel y gwelais yn aml, ond yn siarad o waelod ei galon ac yn dangos yn ddios ei fod yn onest yn yr hyn a lefarai. Cadeiriwyd yn ddeheuig iawn gan Mr. Gwilym Griffiths, un o aelodau gweithgar yr Hen Dy Cwrdd, ac ar ol canu emyn a gweddio gan y Parch. Melchizedec Evans, Highland Place, agorodd y cadeirydd trwy gyfeirio at y ffaith fod y cerflun wedi ei gerfio gan eu cyd-drefwr ieuanc, Mr. Benjamin Thomas, Mount Pleasant, yr hwn oedd yn ail oreu yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe, ac am yr hwn y siaradodd Mr. Goscombe John, y beirniad, yn uchel iawn. Yna darllenodd lythyrau oddiwrth Mr. J. Griffiths, Ysgol y Comin, a'r Parch. Cynog Williams, gweinidog y Bedyddwyr yn Heolyfelin, yn datgan eu parch i Mr. Jones a'u siomedigaeth nas gallent fod yn bresenol. Yna cafwyd ychydig eiriau gan y Cynghorwr D. Tyssul Davies yn rhoddi hanes y mudiad, a chân gan Miss Elizabeth Anne Morgan, ac adroddiad gan Miss Myfanwy Lewis.

Yna galwyd ar Mrs. Llewellyn, priod y Cynghorwr Rees Llewellyn, prif oruchwyliwr gwaith y Bwllfa, i ddod yn mlaen i wneud ei gwaith, sef dadlenu y cerflun. Ar ol gwneud hyny yn ddeheuig, dywedodd mai ychydig a feddyliai hi pan yn yr ysgol gyda Mr. Jones yn yr ysgoldy hwn y byddai byth yn cael yr anrhydedd o ddadorchuddio cerflun ei hen feistr. Yr oedd yn ddarlun gwir dda o'r gwrthddrych, ac yr oedd yn bleser mawr ganddi gael yr anrhydedd o ddadorchuddio cerflun un o arweinwyr y mudiad addysgawl yn y lle. Gallai hi ddweyd llawer am Mr. Jones, ond fel y gwyddent oll nid oedd hi yn arfer siarad yn gyhoeddus, a rhaid iddynt ei hesgusodi.

Ar y gerflun yr oedd yn argraffedig, —"Dadorchuddiwyd y cerflun hwn o'r Parch. R. Jenkin Jones, M.A., gan Mrs. Llewellyn, Bwllfa House, Cwmdar, Chwefror 10fed, 1908." Nid annyddorol ychwanegu fod Arlunydd Penygarn, yr hwn a welodd y cerflun yn Abertawe yn dweyd ei fod yn hynod o dda. Yna darllenodd y Cynghorwr D. Tyssul Davies y penillion canlynol o waith y Parch. Alfa Richards, a theg yw dweyd mai rhwng dau wasanaeth y Sul o'r blaen y cyfansoddwyd hwy.

Aeres y ddelw wen !
Tynwch y gorchudd i ffwrdd,
A gwelir tuhwnt i'r llen
Gerub yr Hen Dy Cwrdd.

Mi welais lawer gwaith
Ddadlenu i'r "meirw gwiw";
Ond wele ddwyfolach ffaith,
Dadlenu "delw" y byw.

Rhaid marw cyn cael y clod
Yn iaith diareb fy ngwlad,
Mae dyfnach gwirionedd yn bod
Medd "delw" ein parchus dad.

*Well done*, Aberdar, yn wir,
Am barchu dy batriarch gwiw :
Cyn huno'th weledydd clir
Cadd dy glod—ac yntau'n fyw.

A phwy yn fwy teilwng sydd,
Fy ngwlad, o gylch dy fwrdd ?
Pwy'n deilyngach i glod dy ffydd
Na cherub yr Hen Dy Cwrdd ?

Safodd yn ddewr ar dy fur
Fel gwyliwr boreuau Duw ;
Yn stormydd dy gâr a dy gur
Dy ffyddlon ladmerydd yw.

Dy brophwyd dros grefydd rydd,
Dy Salmydd gloew yw ef ;
A'i lygaid yn llawn o'r dydd,
A'i fywyd yn llawn o'r nef.

*Well done*, Aberdar, yn wir,
Mor hapus ydyw cyd-gwrdd,
I salmu dy gariad clir
I gerub yr Hen Dy Cwrdd.

ALVA.

Siaradodd y Cynghorwr Lewis N. Williams (Ab Carw Coch), Caecoed, yn uchel am Mr. Jones, a rhoddodd dipyn o hanes yr hen Ysgol dros haner can' mlynedd yn ol pan oedd

yn llofft yr hen stabl, ger y Ty Cwrdd, cyn adeiladu yr adeilad yr oeddynt ynddo yn awr. Cyfeiriodd at ei lafur fel dinesydd ac yn yr YMOFYNYDD. Yr oedd Mr. Jones yn cael edrych ato fel arweinydd, nid gan yr eglwys yn unig, ond gan holl Aberdar, nid yn unig yn yr enwad ond trwy Gymru i gyd.

Yna siaradodd y Parch. J. Grawys Jones, gweinidog parchus Eglwys Annibynol Ebenezer am Mr. Jones fel cyd-weinidog yn y lle. Yr oedd ef wedi dyfod yno i gyd-lawenychu a hwy. Yr oedd Mr. Jones wedi bod yn arweinydd gyda phob mudiad da yn y lle, ac yr oedd yn anhebgorol angenrheidiol cael dynion o'i fath. Yr oedd yn un a welai ffaeleddau yn glir ac yn fuan, ond nid oedd byth yn galed ar unrhyw un a wnai gamsyniadau. Yr oedd yn wr amlochrog, ac arosai ei ddylanwad yn hir nid yn unig yn yr enwad ond hefyd yn y lle ac ar y wlad. Arosai yn hwy na'r cerflun a ddadorchuddiwyd yno. Nid oedd Mr. Jones fel awrlais a glywsai son am dano, yn chwyrnu yn rhyfeddol ond byth yn taro. Yr oedd Mr. Jones yn taro yn glir, a gwyddent beth o'r dydd oedd wrth ei glywed yn taro. Dymunai iddo hir oes eto i lafurio yn y lle.

Mr. J. Griffiths a gyfeiriodd ato fel un o'r rhai olaf o'r hen bregethwyr a wnaethant gymaint dros addysg. Bu cymdeithas ag ef yn ystod y 30 mlynedd diweddaf iddo ef yn foddion gras. Cyfeiriodd hefyd at ei wasanaeth fel athraw i ganoedd heddyw yn mhwlpudau pob enwad.

Yna cafwyd areithiau byr a chynwysfawr gan y Parch. M. Evans, Highland Place; Meistri D. M. Richards, Charles Read, a Thomas Williams.

Pan gododd Mr. Jones i ddweyd gair yr oedd yn amlwg ei fod yn ceisio siarad dan deimladau cryfion. Diolchodd i bawb am eu presenoldeb ac i'r siaradwyr am eu geiriau caredig. Nid oedd wedi gwneud mwy na'i ddyledswydd, ond yr oedd wedi ymdrechu cadw golwg ar hono bob cam, er ei fod wedi syrthio lawer tro yn fyr o wneud hyny. Cyfeiriodd at y ffaith ei fod wedi llafurio yn eu plith fel eu gweinidog er ys 44 o flynyddau bellach, a'i fod ef a'i dad gyda byr ysbaid am dri chwarter canrif. Ni fu eglwys erioed yn fwy caredig i'w gweinidog nag y bu yr Hen Dy Cwrdd iddo ef. Cafodd berffaith ryddid i ddweyd ei genadwri pa un bynag a fyddai y genadwri hono yn cael ei chredu gan bawb o honynt neu beidio.

Yna terfynwyd drwy weddi gan y Parch. J. Grawys Jones, Ebenezer.

D.M.R.

## YMSON Y MYFYRIWR.

Anaml iawn y caf yr hyn a elwir yn gyffredin yn wyliau. Mae fy mywyd, ar y cyfan, wedi bod yn un cymharol brysur—rhy brysur i fforddio'r amser gofynol. A rhywfodd, ni theimlaf byth yn fwy ddedwydd ac esmwyth fy meddwl na phan yn orlwythog o waith. Ymddengys i mi oddiar brofiad sydd bellach yn cyrhaedd yn ol dros fwy o flynyddau nag a garaf alw i gof, nad yw bywyd un adeg yn fwy llawn o swyn na phan y gwynebir ei berchenog gan luaws o ddyledswyddau, pob un o'r rhai a alwant am eu cyflawni. Yn mhellach, rhan arall

o'm profiad yw hyn—fod gallu dyn i weithio yn cynyddu yn ol fel y bydd y gwaith a'r dyledswyddau yn amlhau. Pan y gwynebir dyn gan lawer o waith, gall wneud llawer; ac y mae bywyd, y pryd hyn, yn gyfoethog o bleser. Pan y mae dyledswyddau yn aml, a gwaith yn brin, mae'r holl gyneddfau—corphorol a meddyliol—yn dihoeni, a bywyd yn feichus. Nid melldith yw gwaith; nid beichus yw dyledswyddau angenrheidiol; nid blinder yspryd achosir gan ymroddiad i fod yn ddefnyddiol yn y cylch y mae rhagluniaeth wedi peri (neu, wedi trefnu) i linynau dyn i syrthio ynddo. Ac os mai effaith trosedd rhywun o'n cyndeidiau yn y gorphenol pell yw gwaith, fel y dysgid gan dduwinyddiaethau'r byd Cristionogol hyd yn ddiweddar iawn, rhaid i ni ystyried y cyfryw gyn-dad yn un o gymwynaswyr goreu yr hil ddynol.

Ar yr un pryd, bendithiol yw ambell awr neu ddiwrnod neu wythnos o hamdden yn awr ac yn y man. Cydnabyddir hyn yn gyffredinol. Mae natur yn ei ofyn. A chan y mwyafrif mawr o'r rhai a feddant y moddion angenrheidiol (tipyn o arian dros ben yr hyn sydd eisieu arnynt), ufuddheir i alwad natur ryw adeg bob blwyddyn. Cyrcha rhai tua glan y môr; try eraill eu hwynebau tua'r mynyddoedd, neu ddinasoedd mawrion, neu gymoedd poblog Morganwg; ac â ambell un o yspryd anturiaethus dros y moroedd mawr llydan i wledydd pellenig. Yn hyn, fel yn mhob peth arall mae amrywiol dueddiadau; a boddlona pob un ei duedd ei hun mor bell ag y medr. Mae hyn yn iawn; ac mor bell ag yr etyb yr hyn ddylai fod dyben penaf pob gwyliau—gorphwysdra i'r corph ac adfywiad i'r meddwl—mae yn fendithiol.

Cefais inau yn ddiweddar, y fraint o dreulio ychydig ddiwrnodau o seguryd—o seguryd perffaith oddiwrth waith corphorol; ond nid seguryd i'r meddwl er hyny. Nid i lan y môr y troais fy nghamrau, ond i'r mynyddoedd—i ganol mwg y gweithfeydd—i'r twrf sydd anwahanadwy gysylltiedig a'r byd gweithfaol a masnachol. Mwynhâf lan y môr. Medraf—yr wyf lawer gwaith wedi—eistedd i sylwi arno am oriau yn ddiflino, i sylwi ar ei donau yn dilyn y naill yn llall yn ddiderfyn, ar ei ymchwydd cynhyrfus un adeg, ar ei dawelwch gorlethol adeg arall—i feddwl am ei fawredd, ac yn arbenig am y trefnwr anghymarol ddoeth sydd yn peri i holl ddyfroedd y ddaear i uno i ffurfio un llyn enfawr. Lawer gwaith, pan yn eistedd fel hyn ar lan y môr, bum yn meddwl na ddylai pregethwyr a drigent gerllaw iddo fod yn brin o destynau—mor ddiderfyn yw'r meddyliau a awgrymir ganddo. Ond i'r meddwl ymholgar a diwylliedig mae'r mynyddoedd hefyd yn gyfoethog o ddrychfeddyliau ardderchog, yn enwedig os, yn ychwanegol, y dygir y meddwl yn barhaus i gyffyrddiad agos â ffrwyth meddyliau dyfeisgar cenedlaethau. Ni fedr y meddwl, os mewn cyflwr bywiog, cymharol ddatblygiedig, fod yn segur. Myn ef ymyru a dyrysbynciau bywyd (ac angeu hefyd), a chwilio am ddehongliadau iddynt, yn mhob man. Ni lwydda, efallai, i gael dehongliadau cyflawn iddynt; ond da os y ca ddehongliad fydd yn ei foddloni. Hyn yw un o elfenau gogoniant dyn—ei fod wedi ei ddonio â meddwl i ddadrys—neu i wneud ymgais i ddadrys—y dirgeledigaethau a'i hamgylchyna.

Pan yn cychwyn o'm cartref am y lle y bwriadwn dreulio ychydig ddyddiau ynddo, aethum i'm llyfrgell i edrych a oedd yno ryw lyfr nad oeddwn wedi ei ddarllen o'r blaen, neu lyfr yr hoffwn ei ddarllen unwaith eto. Syrthiodd fy llygaid ar lyfryn oeddwn wedi brynu llynedd ar un o'r meinciau llyfrau yn ngorsafoedd ein rheilffyrdd—lleoedd llawn o demtasiynau i'r hoff o lyfrau—enw'r hwn yw, "A oes Duw? a darlithiau ereill ar amheuaeth ddiweddar." Tynais hwn allan, a gosodais ef yn fy mhoced. Yna, aethum i chwilio am ragor; eithr tybiais, ar sail fy mhrofiad ar adegau eraill cyffelyb, mai

ofer fyddai llwytho fy hun â baich o lyfrau, gan, yn debygol, na ddarllenwn ond ychydig o honynt. Pan yn cychwyn tua thref ar ddechreu fy ngwyliau cyntaf yn y Coleg, llenwais fy nghist o lyfrau, gyda'r bwriad o ddarllen yr oll cyn y dychwelwn yn mhen tri mis ar ol hyny. Pan ddaeth yr adeg i ddychwelyd, yr oedd yr oll o'r llyfrau yn y lle y gosodwyd hwy dri mis cyn hyny—heb eu darllen wrth gwrs. Wrth feddwl am hyn, tybiwn fy mod yn wahanol i fyfyrwyr eraill yn gyffredin, neu, fy mod yn eithriad i'r rheol gyffredin yn mhlith myfyrwyr; ond erbyn hyn, ar ol sylwi yn fanwl ar arferion amryw genedlaethau o fyfyrwyr, gwelaf nad un o'r eithriadau oeddwn, ond un o'r rheolau cyffredin yn hytrach. Mae'r myfyrwyr a fedrant ymroddi i ddarllen yn ystod gwyliau yn anaml. A phwy fedr eu beio? Os gwyliau, mwynhaer ef.

I ddychwelyd at y pwnc, fel y dywed pregethwyr mawr pan yn crwydro oddiwrth eu testynau penodedig. Pwnc penaf y penderfynais ei gymeryd gyda mi oedd, "A oes Duw?"—gofyniad y bum, droion lawer cyn hyn, yn ei ofyn fy hun; a gofyniad wyf, erbyn hyn, wedi cael ateb iddo—ateb boddhaol i mi o leiaf. Darllenais y llyfr, neu yn fwy cywir, y rhan o hono sydd yn cyffwrdd a'r gofyniad uchod, cyn cyrhaedd pen fy nhaith. Mae y rhan hon o hono wedi ei ysgrifenu mewn dull argyhoeddiadol a dyddorol; ond nid ar gyfrif ei gynwys y gwerthfawrogaf ef yn gymaint ag am y meddyliau y bu ei gynwys yn foddion i ddeffroi yn fy mynwes mewn perthynas i'r pwnc hwn a phynciau eraill cydrywiol. Perodd y gofyniad uchod lawer iawn o bryder a phoen meddwl i mi flynyddau yn ol; ond erbyn hyn mae'r pryder a'r poen wedi rhoi lle i argyhoeddiad na fedr dim, mi gredaf ei syflyd—argyhoeddiad sydd wedi dwyn heddwch ac esmwythyd meddwl gydag ef. Ac yn hyn, wedi'r cyfan, y mae'r prawf terfynol o waith pob argyhoeddiad o'r fath hyn—a ydyw yn dwyn i'r fynwes heddwch ac esmwythyd meddwl.

Ni fedraf ysgrifenu ar y pwnc hwn gydag awdurdod duwinydd neu wyddonwr; ni fedraf wneud rhagor na gosod allan mewn ymadroddion anghelfydd rai meddyliau y mae'r llyfr a enwais wedi eu hawgrymu i mi. Hyn, efallai, fydd cynwys yr "Ymson" nesaf.

MYFYRIWR.

## GOHEBIAETHAU.

### "YR YMOFYNYDD."

Mri. Golygwyr,—Buoch mor garedig a gwahodd, byddaf fine mor hŷf a rhoddi fy marn am YR YMOFYNYDD a gwneud un neu ddau o awgrymiadau byr o barthed i'w lwyddiant pellach. Dywed hen ddiareb Ladinaidd "Quot homines tot sententiae," hyn yw "Pob dyn a'i syniad." Felly mae gyda golwg ar eich misolyn, ond yr eiddoch chwi yw y farn awdurdodol yma am mai chwi yn fwy na neb arall sydd yn gyfrifol am le a'i lwyddiant yn addysg ein gwlad. Er fy mod yn gredwr cryf mewn amrywiaeth ac anibyniaeth barn eto gallwn feddwl mai gwell yw peidio bod yn rhy barod i wrando ar achwynion pob darllenwr dichwaeth a difeddwl. Yr oedd gan Job ei feirniaid a dyma ddywedodd wrthynt, "Diau mai chwychwi sydd bobl a chyda chwi bydd marw doethineb."

Rhaid i bob golygydd fod yn dipyn o Job mewn rhagor nag un ystyr. Credaf fod genych yn barod dystiolaeth llenorion o fri—megys Mr. O. M. Edwards—am y safle uchel ddeil YR YMOFYNYDD yn mhlith cyhoeddiadau Cymreig fel llenyddiaeth a thrysordy o wybodaeth. Gwendid mawr gwasg y byd heddyw yw y duedd druenus i borthi blys y werin. Mae ganddi genhadaeth amgenach na hynyna sef tystiolaethu am y gwir mewn arddull ac ymadrodd. 'Dyw'r wawr ond dechreu tori ar Gymry eto (fel y dengys llawer iawn o gynwys y rhifyn diweddaf o'r *Geninen*—ein prif gyhoeddiad Cymreig) a gwaith YR YMOFYNYDD yw aros fel goleudy ar greigiau gau-gredoau i arwain dynion at y gwir. Peidiwch disgyn ynte i gyfarfod â gofyniad neb. Ond "nid da lle gellir gwell" sydd hen ddywediad ac o dan ei arweiniad bûm yn ymgynghori a rhai o'ch darllenwyr mwyaf deallus er ceisio dod o hyd i'w syniad am y mater. Carai llawer o honynt weled y "fran" yn dychwelyd i'w nhyth. Eraill garent weled mwy o amrywiaeth yn cael ei ddwyn i mewn ond ni ddywedent yn mha ystyr am y rheswm, debygaf, na wyddent eu hunain. Yr awgrymiad mwyaf dyddorol, yn fy marn i, oedd yr un wnawd gan y rhai ddymunent weled gyfieithiad o lyfrau bychain Seisnig fel eiddo Carpenter ar "Life in Palestine" yn ymddangos o dro i dro.

Dyna yn fyr ffrwyth yr ymchwiliad fel y'i casglwyd gan

EDMYGYDD OR YMOFYNYDD.

[Croesaw i eraill eto draethu eu barn.—GOL.]

---

## Y *VAN* UNDODAIDD I GYMRU.

---

Mri. Golygwyr,—Chwi wyddoch y stori, Pan ballodd y mynydd fyned at Mahomet, fe benderfynodd Mahomet fynd at y mynydd, ac ystyriaf fi iddo wneuthur yn gall. Credaf fod yn hynyna wers bwysig i ni fel enwad. Yr ydym bellach am ugeiniau o flynyddoedd wedi bod yn gwahodd y cyhoedd i ddyfod i'n capelau. ac ychydig yw'r gwrandawiad gawn ni; fel y mae rhai wedi dyfod i'r casgliad mai doeth fydd i ni fyn'd at y cyhoedd, gan fod y cyhoedd yn gwrthod dod atom ni. Llwyddodd Mahomet yn ei gynllun, a lle bynag y mae cynllun cyffelyb wedi ei dreio gan yr Undodiaid fe ddywedir ei fod yn llwyddianus iawn.

Odid nad yw eich darllenwyr wedi clywed am y *Van Mission* yn Lloegr ac am y tyrfaoedd sydd yn ei dilyn. Deallaf fod trefn ar droed i gael *Van* i Gymru. Y mae'r anturiaeth yn bwysig, ac fe ddylid cael undeb a chydweithrediad pawb fel ag i sicrhau llwyddiant.

Ychydig o'r yspryd cenadol y mae'r Undodwr wedi ei ddangos hyd yn hyn, ond da genym weled arwyddion ei fod yn dechreu deffro. Nid oes gan yr un enwad well cenadwri i'w thraethu, a chredwn fod y wlad yn fwy addfed nag a fu eriod. Onid oes galw arnom felly i ymddeffroi a chymeryd i fyny yr arfogaeth briodol i'r gwaith, a myned allan i'r prif-ffyrdd a'r caeau i gymhell sylw y bobl at yr hyn y safwn ni drosto? Y mae ein cenadwri ni yn syml, ac yn gyson a holl ofynion rheswm a chydwybod, ac nas dichon gwir addysg y gwyddorau ddweyd dim yn ei herbyn.

Deallwn y bwriedir i'r *Van* dreulio rhyw ugain wythnos yn Nghymru, ac yr wyf fi o'r farn os na wnawn ni rywbeth yn ol ein gallu i gynorthwyo'r anturiaeth y byddwn yn syrthio yn fyr iawn o'n dyledswydd. Sonir llawer am Sosialiaeth y dyddiau hyn; ni wn i am Sosialiaeth well i ddodi calon newydd mewn dynion na gosod ger eu bron y syniad Undodaidd am Dduw a dyn—Duw yn Dad, a phawb dynion yn frodyr.

Q.Q.

## DYDD BARN.

*Parhad o Rifyn Tachwedd, tudalen 254.*

DAVID JONES.—Mi'ch gwelais chi yn nghapel y————neithiwr. Be feddyliech chi o'r bregeth? Oń'd oedd hi'n ardderchog?

THOMAS MORGAN.—Gwelwn eich bod chi yn ei mwynhau.

DAVID JONES.—Wel, oeddwn, rydw i'n credu tipyn o athrawiaeth iachus, ac ambell i ergyd llaw chwith i'r hen Sociniaid yna wrth basio.

THOMAS MORGAN.—A ydych chi'n teimlo'n hapusach o glywed pobl o sect arall, cymydogion i chwi, a dynion fel y gwyddoch yn ceisio byw yn *respectable*, yn cael eu gyru i'r lle poeth?

D.J.—Wel, am wn i nad w i. Wrth gwrs, cha nw ond y mae'n nw'n haeddu—dim ond cyfiawnder. Arnyn nw eu hunain mae y bai.

T.M.—Gwir na cha nw ond cyfiawnder; ond y mae'n dda fod y fantol yn llaw arall ac nid yn llaw y pregethwr. Rydw i wedi meddwl llawer am yr ymddiddan gawsom ni pwy ddydd.

D.J.—Ond dyma John Thomas a John Williams yn dyfod. Cystal newid ymadrodd.

J.T.—Clywais i rai o honoch gael amser dedwydd yn nghapel————neithiwr. Ni fedra i yn fy myw a deall y teimlad sy'n peri i bregethwr ffaeledig gyhoeddi dedfryd colledigaeth uwchben corph arall o Gristnogion; a llai fyth y medra i sylweddoli sut y gall corph o bobl grefyddol deimlo mwynhad wrth glywed hyny. Ai teimlad Cristnogol yw'r hwn a bair i ddyn fwynhau'r syniad fod cydgreadur yn cael ei rostio'n dragwyddol yn uffern? 'Dallwn i ddim edrych ar neb yn llosgi llygoden llawer llai llosgi cyd-ddyn.

J.W.—Ac eto fe gredir fod mwyniant nefoedd yn felusach o wybod fod yr hereticiaid yn cael eu poeni yn uffern! Dyna'n tynged ni yn marn miloedd o frodyr anwyl, y dysgwyliem yn well oddi wrthynt,—

> Undodiaid andwyol du
> Brodorion Abred obry!

ond diolch i Dduw nad yw ein tynged yn dibynu ar law un dyn nad pa mor uniongred y bo.

J.T.—Yr wyf yn ofni fod tuedd yn ein credoau i beri ini anghofio ein dynoliaeth.

> Dyn fo'n debyg i'r fath Dduw
> Nid yw'n haeddu i gael byw.

J.W.—Be feddyliwch am eiriau yr hen sant duwiol, Thomas Aquinas:—"Fe ganiatair i'r saint gael golwg ar gospedigaeth y damnedigion fel y gallont fwynhau yn well (?) eu gwynfydedigrwydd eu hunain!" A geiriau'r duwiol Jeremy Taylor, o fendigedig goffadwriaeth, ardderchoced ei syniadau mewn cyfeiriadau eraill, dyma fel y traetha ei farn ar y mater hwn, "Yn uffern fe gysylltir y dioddefiadau mwyaf pwrpasol (?) a mwyaf arteithiol a phob organ a phob synwyr o eiddo dyn. Fe'n synir gan ymddygiad annynol Phalaris, yr hwn a rostiai ddynion yn fyw yn ei darw pres; ond yr oedd hyny yn llawenydd mewn cymhariaeth i danau uffern." Ar gefn hyn swnio'n wan mae geiriau Dafydd Ionawr,—

> "Angylion gwynion i gyd,
> Rhifoedd eu brodyr hefyd,
> Cyfion waredigion Duw
> *Lonant* yn nial annuw."

J.T.—Rhyw gymysgedd rhyfedd yw sefyllfa feddyliol dyn sy'n gallu dal syniadau o'r fath ochr yn ochr ag addysg yr athraw y proffesant fod yn ddisgyblion iddo—fod Duw yn Dad, fod Duw yn gariad.

D.J.—'Rwy'n credu mor gadarn a chwithau mai cariad yw Duw; credaf ei fod yn drugarog, ond credaf hefyd

ei fod yn gyfiawn, ac nas gall lai na chospi'r euog.

J.W.—Ie, cospi yn dragwyddol am drosedd triugain mlynedd a deg! Dyna'ch syniad chi am gyfiawnder, aie?

J.T.—Gellid disgwyl fod y gosp yn gyfartal i'r trosedd o ran amser ac o ran llymdra. Cael bod yn y tân nid am flynyddau, ond am dragwyddoldeb!

T.M.—A ydyw'n iawn mesur cyfiawnder Duw wrth fesur dyn?

D.J.—Cofiwch fesur yn iawn. Nid yw trosedd yn erbyn Duw ddim yr un peth a throsedd yn erbyn dyn. Y mae Duw yn anfeidrol ac y mae trosedd yn erbyn bod anfeidrol yn haeddu cosp anfeidrol.

J.T.—Esguswch drwsgledd yr ymadrodd, ond y mae hynyna yn swnio i mi yn fath o anfeidrol ddwli.

J.W.—Ac i mi ymddengys yn ddim llai na chabledd ar yr hwn y dysgodd Iesu ni i'w alw'n Dad—"Ein Tad,"&c.

T.M.—Ystyriwn Draco* gynt yr hen ddeddfwr creulawn—Dyma'i eiriau,—"Y mae'r beiau lleiaf yn haeddu marwolaeth, ac nid oes genyf dynged uwch i'r beiau mwyaf." Nid oedd Draco ond hen bagan anwybodus, ac waeth gen i ddweyd e na'i feddwl e, saif yn uwch yn fy meddwl i na'r Duw y mae rhai yn credu ynddo.

J.W.—Y mae Iesu wedi ein dysgu i feddwl am Dduw fel Tad; ac mae'n ddyledswydd arnom i beidio credu dim sy'n wrthwynebol i'r caritor hwnw. Pa les ffydd mewn dyn neu ffydd yn Nuw oni cheidw ni rhag credu rhywbeth anheilwng am danynt. Pe dywedai rhywun wrthyf am John Jones, dyn wyf wedi ei adwaen a'i barchu am 40 mlynedd, ei fod yn lleidr, ni chredwn i ddim, mi wn ei fod yn anmhosibl. A phe dywedai'r holl eglwysi wrthyf fod Iesu'n dysgu y bydd Duw yn cospi dyn yn dragwyddol am bechodau'r bywyd hwn; a phe dygent benod neu adnod i gadarnhau'r haeriad, mi atebwn, "Os wyf wedi dysgu dim am Dduw oddiwrth addysgiadau Iesu, hyn yw, fod eich haeriad yn anmhosibl. Gall fod camsyniad yn nghylch ystyr y geiriau gyfeiriwyd atynt. Y mae'r llythyren yn lladd; ond nid oes dim camsyniad i fod yn nghylch yr hyn a ddywed Iesu am garitor tadol yr Hollalluog.

J.T.—'Rwyf yn cofio geiriau Bacon a ddarllenais rai blynyddau yn ol; teilyngant ein sylw o leiaf. "Gwell bod yn atheist, neu beidio dal un opiniwn o gwbl am Dduw, na dal opiniwn anheilwng am dano. Nid yw'r naill ond anghrediniaeth, y mae'r llall yn golygu dirmyg; ac yn sicr y mae ofergoeliaeth yn sarhad ar y Goruchaf. Llefara Plutarch i bwrpas, "Yn sicr, byddai'n llawer gwell genyf i rywun ddweyd na fu erioed y fath ddyn a Plutarch, nag iddo ddweyd fod yna un Plutarch gynt a arferai fwyta ei blant gynted ag y byddent yn cael eu geni, fel y dywed y beirdd am Sadwrn. Ac megys y mae'r sarhad yn fwy tuag at Dduw, yn gyffelyb y mae'r perygl yn fwy tuag at ddynion!"

B.C.D., Cofnodydd.

* Draco, awdwr deddfau Athen—cyn Crist 621.

---

Darfu bore ddydd ein hoes,
Para i'w wres a'i des nid oes;
Ond prydnawno'n hyfryd wna
Nol dïwrnod brwd o ha:
Nosed einioes—dyddia fry
Y cariad a'r gyfeillach gu.

—D.D., Castell Hywel.

## MARWOFION.

Ionawr 2, bu farw Mary Kent, anwyl briod Tom Kent, Rose Cottage, ger Falcondale, a merch i James a Judith Davies, Unity Cottage, Capelygroes, yn 28 mlwydd oed. Yn ychwanegol at yr uchod a brodyr a chwiorydd, gadawodd hefyd ddau blentyn ieuanc iawn (un yn faban) ar ei hol. Nodded y nef fyddo'n rhan i'r priod a'r amddifaid yn eu colled. Y Llun canlynol hebryngwyd yr hyn oedd farwol o honi gan dyrfa luosog i gladdfa Capelygroes. Gweinyddwyd yn y ty gan y Parch. James Jones, curad Llanbedr; pregethwyd yn y capel gan y gweinidog, a gweinyddwyd ar lan y bedd gan y Parch. J. Davies.

Ionawr 21, wedi ychydig oriau o gystudd, yn 13 wythnos oed, David Richards, anwyl faban Daniel a Margaret Thomas, Quarry Villa, Cwmsychbant. Claddwyd yn mynwent Capelycwm, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog, gyda chynorthwy y Parch. E. O. Jenkins.

Ionawr 24, wedi cystudd byr iawn, yn 10 mis oed, Elizabeth Anne, anwyl ferch Thomas a Hannah Davies, Pleasant View, Alltyplaca. Claddwyd yn mynwent Capelybryn, a gweinyddwyd ar yr achlysur gan y gweinidog.

Ionawr 26, yn ychydig dros haner blwydd oed, Janet ac Elizabeth Haines, efeilliaid Thomas a Jane Haines, Graig, Trebanos. Claddwyd y Mercher dilynol wrth Gellionen, a gwasanaethodd y Parch. W. Alfa Richards ar yr achlysur yn dyner a thoddedig. Ymgysured y rhieni unig yn y ffaith fod eu hanwyliaid bychain uwchlaw pob ing a deigr.

Gwyn yw bywyd y baban glân,
Gwyn yw neges ei gur a'i gân;
Gwynu wna baban ar ei daith,
Gwyna i dragwyddoldeb maith.

Banos.

Mi welaf flodau yn y glyn,
Yn tyfu tua'r nef yn wyn,
Yn tyfu mewn ysblander byw:
Pa beth yw baban? blodyn Duw.

Alfa.

Ionawr 27, wedi cystudd maith, yn 27 oed, Elizabeth, anwyl briod Richard Lewis, Ffynon Meredydd, plwyf Llanarth. Claddwyd yn nghladdfa'r teulu yn mynwent Eglwys Ciliau. Gwasanaethwyd yn y ty cyn cychwyn o'r angladd, gan y Parch. T. M. Williams, Ficer Llanarth, a gweddiwyd wrth y drws gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca. Yn yr eglwys darllenwyd gan y Parch. B. Jenkins, curad, a phregethwyd gan y Parch. T. Lloyd, Capel Cynon. Gadawodd Mrs. Lewis ei phriod, dau blentyn, ei thad, yn nghyd a brodyr a chwiorydd a nifer fawr o berthynasau a chyfeillion, i alaru'n ddwys ar ei hol; ond hyderir y cant oll nerth i alaru'n gymedrol yn yr ystyriaeth mai yr Arglwydd sydd yn teyrnasu.

Ionawr 27, yn nhy ei fab yn Llanarth, bu farw John Jones, diweddar o'r Neuaddfawr, yn 88 oed. Bu'r ymadawenig yn ngwasanaeth Mr. Hughes fel goruchwyliwr fferm am dros ugain mlynedd, a chyflawnodd ddyledswyddau ei swydd er boddlonrwydd i'w feistr, ac yn y fath fodd ag i enill iddo ei hun barch y rhai oedd dan ei ofal. Hyd y pallodd ei nerth ychydig flynyddau yn ol, bu yn fynychydd cyson o'r addoliad yn Nghapelygroes. Dydd Iau canlynol daearwyd ei weddillion yn nghladdfa Pencae, ger Llanarth. Pregethwyd yn y capel gan y Parch. D. Evans, Capelygroes; a chyflawnwyd y gweddill o'r gwasanaeth gan y Parchn. J. M. Prydderch, Pencae, a J. Howell, Llwyncelyn.

Ionawr 27, wedi cystudd hir, yn 77 oed, Evan Thomas, Ty'r Ysgol, Cwrtnewydd. Claddwyd y Mercher

canlynol yn medd ei anwyl briod, yn nghladdfa gyhoeddus Aberdar. Gwasanaethwyd yn y ty, cyn cychwyn o'r angladd gan y Parch. J. Davies, ac yn y fynwent gan y Parch. R. J. Jones, A.C. Yr oedd yr ymadawedig yn enedigol o ardal Llanwenog a chwedi treulio boreu oes yn yr ardal hono, ond oherwydd prinder gwaith yr oedd wedi gorfod symud i Forganwg, ac yn y Cwmbach y treuliodd y 40 mlynedd diweddaf. Yn mhob lle y bu yr oedd iddo air da gan bawb a'i hadwaenai, fel dyn cywir a gonest. Yr oedd yn gyfaill serchog, yn gymydog hawddgar, yn Undodwr selog, yn Gristion didwyll. Dygodd fawr sel dros yr achos Cristionogol yn y Cwmbach fel y gwnaethai yn flaenorol yn Capelybryn cyn ei symud, ac yr oedd ei ymddygiad yn wastad mewn cydgord a'i broffes. Gadawodd fab a merch i alaru yn ddwys ar ei ol. Y mae y ferch yn briod a Mr. D. R. Davies, Prifathraw Ysgol y Cynghor yn y Cwrtnewydd lle y cafodd ef bob ymgeledd yn nyddiau ei wendid a'i lesgedd. Y mae y mab, Mr. George Thomas yn ysgolfeistr yn Sir Benfro. "Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig."

CHWEFROR 7, wedi blwyddyn o gystudd yn 18 oed, Daniel, anwyl fab John Jones, Pantyronen, plwyf Llanwenog. Claddwyd yn mynwent Capelybryn, a gwasanaethwyd ar yr achlysur galarus gan y gweinidog. Yr oedd lliosogrwydd yr angladd yn dangos yn amlwg fod cymydogaeth gyfan yn teimlo'n ddwys wrth weled priddo dyn ieuanc yn mlodau ei ddyddiau. Nerth a gaffo'r tad, y brodyr a'r chwiorydd, i ymostwng i'r drefn, ac i ddysgu gwers werthfawr oddiwrth yr amgylchiad.

CHWEF. 17, yn 36 oed, Mrs. W. Davies, Towy House, Clifton Street, Aberdare, a merch i Mr. a Mrs. John James, Teilo House, o'r un lle. Dioddefodd yr ymadawedig gystudd hir gydag amynedd tawel. Yr oedd yn aelod ffyddlawn o eglwys Highland Place, a chydymdeimlir yn fawr a'r priod a'r tad a'r fam yn eu galar. Claddwyd yr ymadawedig y dydd Mawrth canlynol yn y Cemetery, y Parchn. M. Evans, Highland Place, a J. Tudor, B.A., Soar, yn gwasanaethu.

## MANION AC HANESION.

CAPELYGROES.—Yn yr adroddiad o'r cyfarfod yn Nghapelygroes yn y rhifyn diweddaf, gadawyd allan yr hyn a ganlyn: Cyflwynwyd *Dinner Service* hefyd i Mrs. Evans, ar ran y tanysgrifwyr gan Miss Margaret Ellen Evans, Felinban, mewn anerchiad barddonol o ddymuniadau da.

Y GRAIG A GELLIONEN.—Nos Iau, Ion. 16, rhoddodd Gwili ddarlith ganmoladwy iawn yn y Graig i lonaid capel o wrandawyr astud a myfyrgar, ar y testyn hynod, "Bob." A dweyd y gwir am y ddarlith, yr oedd yn greadigaeth gyflawn ynddi ei hun. Dim ond 'Bob' o ddiwygiwr fedr saethu mor gywir; ac y mae Gwili bob amser yn "Fob" all gyfarfod holl *fobs* y "Bobs." Cadeiriwyd i bwrpas gan y Parch. W. Alfa Richards, ac fe ddylai Cymru ddiolch yn fawr am ei "Bobs." Tywalltwyd cenllysg o englynion a phenillion difyr ar ben Gwili ac Alfa gan yr awenwyr canlynol,—Ioan o'r Graig, Gwerllwynfab, Brynfardd, Banos, Ap Morgan, Perllanog, Ap Perllanog, Harry Fychan, Alfa; diweddwyd gyda'r diolchgarwch arferol. Bwriada pobl ryddfrydig y Graig gael Gwili i fod yn arwr cyfres o gyfarfodydd pregethu ar fyr o dro, a rhagdremiwn am wleddoedd na fu eu bath yma erioed o'r blaen.

Llongyfarchwn y llanc ieuanc, Isaac E. Hopkin, ar ei feiddgarwch di-ildio yn dod allan yn ail oreu ar y berdoneg, yn Eisteddfod Llansamlet, Sadwrn, Chwef. 8, allan o 17 o gystadleuwyr medrus.

Hefyd daeth Seindorf Arian Trebanos â'r llawryf o Eisteddfod y Seindyrf yn yr Albert Hall, Abertawe, Chwef. 8, dan arweiniad clodfawr a medrus ein cyfaill ieuanc, Mr. H. H. Morgan, Trebanos ; rhoddodd y beirniad ganmoliaeth ardderchog i chwareuad y Seindorf. *Excelsior*, fechgyn, i'r lan eto.

Nos Wener, Ion. 31, yn y Graig, cafwyd anerchiad godidog gan y Parch. T. P. Spedding, Stockport, ar "*Crowded Pews and Smiling Faces*," a mwynhaodd pawb eu hunain yn rhagorol ; a da genym allu dweyd iddo werthu dros haner cant o lyfrau *up-to-date* mewn cynwysiad, ac yn adlewyrchu clod mawr ar y gwahanol awduron. Melus moes eto, meddwn.

CROESAW — Dymunem fel eglwysi roesawu Mr. Lewis Morgan, myfyriwr o Clydach-ar-Dawe, i'n mysg. Myfyriwr gyda'r Annibynwyr oedd Mr. Morgan, ac wedi cael cwrs o addysg yn Ammanford, Caerdydd, ac Aberhonddu. Trwy rym meddwl a darllen mae ein cyfaill llafurus wedi ei enill trosodd er ys tro bellach yn bleidiwr egwyddorion Undodaidd a chrefydd rydd. Un o'r *Progressives* gwirioneddol. Mae wedi pregethu droion yn Gellionen a Chapel y Graig, ac yn awr mae wedi ymaelodi yn ein plith. Yr oedd Mr. Morgan yn gyd-fyfyriwr a gweinidog presenol Gellionen. Mae yn fyfyriwr dwfn, yn ddarllenwr eang, yn bregethwr da, ac o gymeriad pur a thyner. Dymunem ei gyflwyno i sylw y frawdoliaeth Undodol yn mhell ac agos, a gwn y dywed pawb—croesaw cynes.

ABERDAR.—Da genym ddeall fod Mr. William Henry Davies, yr hwn sydd yn aelod yn yr Hen Dy Cwrdd, wedi enill ysgoloriaeth gwerth £52 i fyned i Ruskin Hall, Rhydychain. Daeth allan yn uwchaf o bump oedd yn treio. Credwn fod Mr. Davies yn hollol *self-taught*, felly mae'r *credit* yn fwy.

Traddododd Syr Oliver Lodge, y gwyddonwr enwoca'n fyw, anerchiad hynod o flaen Cymdeithas y "Psychical Research" ar y 30ain o Ionawr. Dechreuodd fel hyn : "Yn debyg i weithwyr yn twrio'n ddiwyd o'r ddau tu i wneuthur tynel trwy'r mynydd, yn nghanol rhuadau dyfroedd a swn o lawer math, yr ydym yn dechreu clywed, yn awr ac yn y man, ergydion mandreli'n cyfeillion ar yr ochr draw." Cyfrifid Syr Oliver yn mhlith yr ysprydegwyr er ys llawer blwyddyn, ond mor bell ag y gwyddom ni, dyma'r tro cyntaf iddo gydnabod yn gyhoeddus ei fod yn ysprydegwr. Efrydydd yn unig y cyfrifai ei hun o'r blaen ; un yn chwilio a oes sail i'r pethau hyn. Dyma eiriau diweddaf yr anerchiad : "Y mae'r llinell derfyn rhwng y ddau gyflwr—y presenol a'r dyfodol yn sylweddol eto, ond y mae'n treulio'n gyflym yn ambell i fan."

ANGHYFIAWNDER Y GYFRAITH.—Dywedodd y Parch. T. P. Spedding, Llywydd yr Unitarian Van, yn Highland Place, ychydig yn ol nad oedd cyfraith Lloegr yn deg hyd yn hyn. Yr oedd ef wedi cael ei ddirwyo ragor nag unwaith am werthu llyfrau heb drwydded. Yr oedd rhyddid i werthu'r Beibl a Llyfr Gweddi Eglwys Loegr heb drwydded ; ond cospid pwy bynag werthai lyfrau gweddi neb o'r anghydffurwyr. Yr oedd Spedding dan orfod myned i'r draul o godi *Pedler's Licence* cyn y gallai werthu llyfrau Undodaidd.

PWY? A fedr rhywun o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD, tybed, fy hyspysu pwy ydyw awdwr y penillion rhyfedd a ganlyn ? Gwelais hwynt yn ddiweddar ar ddernyn o ddalen hen lyfr :—

O uffern dragwyddol, sy'n llosgi o hyd !
Tydi yw tynghedfan anffyddwyr y byd,
Tydi yw eu gobaith, a'u gweddi a'u cân ;
A phob rhyw Undodwr, anffyddiwr, a ffol,
Yn ddamniol a deflir i ganol dy dân.

Gan hyny, Undodiaid, Formoniaid y dydd,
'Rwy'n rhoi i chwi rybydd i newid eich ffydd ;
Os ydych am gartref y nef yn y man,
Gwrthodwch y Diafol a'i heresi waith,
Neu ymaith i uffern, bid siwr, fydd eich rhan !

Rwy'n sefyll i'ch galw i gorlan fy Iôr,
Ond rhaid i chwi ddyfod trwy'r unig Iawn Ddôr ;
Myfi ydyw bugail y gorlan fawr hon,
A chwithau fy nefaid, os deuwch i mewn
Yn uniawn drwy'r ffordd rwy'n rhoi ger eich bron !

O weision y diafol a'i heresi fall !
Cymerwch eich arwain a byddwch yn gall :
Mae llawer yn uffern o * * *

Yr oedd y gweddill o'r "farddoniaeth" wedi ei argyweddu yn ormodol i mi fedru ei ddarllen.—*D.D.E., Llundain.*

HEN YSGOL PONTSIAN. — Da genym gael addewid oddiwrth Mr. Evan Evans, diweddar ysgolfeistr Llanfihangel-ar-arth, am erthygl ar y testyn uchod. Yr oedd Mr. Evans yn un o hen ysgolheigion yr hen ysgol uchod yn ystod ei hoes euraidd, a diau y bydd ei adgofion am dani yn nghyd a'r hen athraw yn ddyddorol dros ben.

Pa le, pa fodd mae heddyw,
Y lluaws yma fu
'N cyd-chwareu, a chyd-ddysgu,
A chyd-ymgomio'n gu ;
Mae rhai mewn bedd yn huno,
A'r lleill ar led y byd,
Nad oes un gloch a ddichon
Eu galw heddyw 'nghyd.

ABERYSTWYTH.—Y mae yn bleser genym allu croesawu Mr. D. Robertson Davies ar ei waith yn ymuno a ni fel enwad, ac hefyd ar ei waith yn ymgymeryd o gofal yr eglwys uchod yn ystod tymhor ei efrydiaeth. Eiddunwn iddo bob llwyddiant yn ei ymdrechion.

TOM LLOYD JONES.—Y mae y brawd adnabyddus hwn newydd ddathlu chwarter canrif ei weinidogaeth yn Lerpwl. Bydd genym erthygl ar y pwnc yn ein rhifyn nesaf, wedi ei hysgrifenu gan y Parch. Gwilym Evans, B.A. Cynwysa ddarlun o'r gwrthddrych yn nghyd a'r *Mission* sydd dan ei ofal.

CYMANFA YSGOLION SUL RHAN UCHAF CEREDIGION. — Cyfarfu Pwyllgor y Gymanfa uchod yn Mrondeifi, a phenderfynwyd fod y Gymanfa nesaf i'w chynal yn Nghapel-y-groes, dydd Llun, Mai 18fed. Holir yr ysgolion gan y Parchn. L. Williams, Rhydygwin, ac E. O. Jenkins, Llwyn.—*W.H.W.*

## Y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

LLYWYDD :—CADBEN W. DAVIES.
TRYSORYDD :—JOHN EVANS, CYFREITHIWR, LLANDYSSUL.

## Cyfarfodydd Chwarterol y Pasc.

Cynhelir y Cyfarfodyddd uchod eleni yn ALLTYPLACA, ar ddyddiau MERCHER ac IAU, EBRILL 22 a 23. Dechreuir cwrdd nos Fercher am 6, dydd Iau am 10.30, 2, a 6. Cynhelir y Pwyllgor boreu Iau am 9 o'r gloch. Estyna'r cyfeillion yn Alltyplaca groesaw cynes i'r gweinidogion, cynrychiolwyr a dieithriaid. Y Pregethwr fydd y Parch. M. Evans, Aberdar.

*J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.*

CHRISTR. THOMAS, & BROS, Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

# HOUSEHOLD & TOILET SOAPS

THE FAVOURITE QUALITY IS

***CHRISTR. THOMAS, & BROS., LTD., BEST PALE***

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

# OLD SHOP, CRIBYN.

## D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

**A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand.**

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

**CATALOGUES FREE.**

# *Fresh Vegetable Seeds*

# *Fresh Flower Seeds*

Funeral Wreaths & Designs, Wedding Bouquets.

## HARRY COYSH,

**Garden Expert & Flower Artist.**

NOTT SQ. CARMARTHEN.

# CHANNING HOUSE.

**High School for Girls and Unitarian Boarding School,**

HIGHGATE. LONDON. N.

*Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),*

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W. A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

# BEN EVANS & Co.,

## THE ACKNOWLEDGED HOUSE

FOR

# FURNITURE.

Rare Materials and Elaborate Workmanship are necessarily costly, but that the main essentials of a piece of Furniture—Beauty, Reliability, and Adaptability—may be secured at Low Prices, will be amply proved by an inspection of our Immense Stocks.

Inferior, badly-made Furniture is never CHEAP, no matter what its price may be.

We sell only such as we know will give satisfaction in use and afford gratification by its appearance, at prices which are Strictly Moderate and based entirely on the value of the materials used.

Our Show Rooms are now replete with the Finest Collection of Furniture and Furnishing Materials for all kinds of houses we have ever shown, and we respectfully invite intending purchasers to examine the same before placing their orders.

FURNITURE CATALOGUE (80 PAGES)
FREE ON REQUEST. . . . .

**Renovations & Removals. Estimates Free.**

BEN EVANS & CO., LTD. SWANSEA.